## GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG

**178 - Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Dirymiadau a Diwygiadau) (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 29 Medi 2020*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydynt |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 83 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | 14 Hydref 2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 13 Hydref 2020 |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) ac adran 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Byddai Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau drafft 2019"), pe byddent wedi eu gwneud, wedi trosglwyddo swyddogaethau gorfodi cymorth gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd i Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y DU ac wedi gwneud cywiriadau i gyfraith ddiffygiol a ddargedwir i roi effaith i barhau i gymhwyso cyfraith cymorth gwladwriaethol yn y DU os na fydd cytundeb â'r UE.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi'r canlynol:

> *"Following the UK's conclusion of the Withdrawal Agreement, the draft 2019 regulations were withdrawn in February 2020 without being made as this approach is no longer appropriate. This Government's policy is that at the end of the transition period the UK will have its own domestic subsidy control regime...*

*Therefore, retained EU law on State aid will have no practical application in the UK after the end of the transition period and will become redundant.*"

Mae'r Rheoliadau hyn yn datgymhwyso cyfraith yr UE sy'n ymwneud â chymorth gwladwriaethol a ddargedwir yng nghyfraith y DU ar hyn o bryd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael") a, thrwy hynny, sicrhau nad yw cyfraith cymorth gwladwriaethol yr UE yn rhan o gyfraith ddomestig y DU ar ôl diwedd y cyfnod pontio.
Mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor ar 25 Ionawr 2019, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol y datganiad a ganlyn ynghylch Rheoliadau drafft 2019:

"*The Welsh Government's position is that State aid is a devolved matter and not a reserved matter under any heading of the Reserved Matters Schedule in the Government of Wales Act 2006. However, the UK Government do not consider it as such (as was noted in the Intergovernmental Agreement) and therefore they have not requested Welsh Ministerial consent). The Welsh Government has requested from the UK Government, an explanation of their legal position but there has been no response*."

O gofio effaith arwyddocaol y Rheoliadau hyn, efallai y bydd angen i'r Aelodau ystyried ysgrifennu at Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi i wneud sylwadau.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 15 Hydref 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn. Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn nodi'r gwallau a ganlyn yn natganiad Llywodraeth Cymru:

1. Mae'r datganiad yn cyfeirio'n wallus at y Rheoliadau hyn fel "Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Dirymu etc) (Ymadael â'r UE) 2020", ond yr enw cywir yw "Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Dirymiadau a Diwygiadau) (Ymadael â'r UE) 2020"
2. Mae'r datganiad yn cyfeirio'n wallus at "*Erthygl 7(A)* o Ddeddf Llywodraeth Cymru", ond y cyfeiriad cywir yw "*Atodlen 7A* i Ddeddf Llywodraeth Cymru *2006*" [*ychwanegwyd y pwyslais*].

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn tynnu sylw'r Pwyllgor at y materion a ganlyn mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin.

1. Mae gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU farn gyferbyniol ynghylch a yw cymorth gwladwriaethol wedi'i ddatganoli. Gan nad yw Llywodraeth y DU o'r farn bod y mater yn un a gedwir yn ôl, nid yw wedi ceisio cydsyniad Llywodraeth Cymru.

   Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cymorth gwladwriaethol wedi ei ddatganoli ac, fel y cyfryw, mae'n dadlau y dylid ceisio ei chydsyniad gan fod y Rheoliadau hyn yn effeithio ar gymhwysedd datganoledig. Gellir ystyried peidio â gofyn am gydsyniad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rheoliadau sy'n effeithio ar faes polisi datganoledig yn achos o dorri'r Cytundeb Rhynglywodraethol.